Atodiad A

**Grŵp Tasg a Gorffen Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd**
**1. Aelodaeth**

6 aelod etholedig – cynrychiolwyr i'w penodi gan bob un o Grwpiau Ardal Aelodau'r Cyngor

**2. Mewnbwn Swyddogion**

Swyddogion o adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor, ynghyd â Swyddogion o Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac eraill fel y bo'n briodol.

**3. Pwrpas yr Astudiaeth**

Edrych ar opsiynau a chanlyniadau sydd eu hangen o fewn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd. Mae'r ddogfen hon yn ofyniad Statudol sydd ar bob Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac mae angen ei chadarnhau yn 2024.

**4. Cwmpas yr Astudiaeth**

I:

(i) archwilio ac adolygu'r ddogfen Strategaeth Risg Llifogydd gyfredol a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau a gwelliannau.

(ii) Adolygu unrhyw newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a chyfrannu sut y gellir rhoi'r rhain ar waith yn Sir Ddinbych.

(iii) Gweithio gyda swyddogion perthnasol i ddeall sut y gellir gweithredu'r penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb a pholisi.

(iv) Defnyddio eu gwybodaeth leol am faterion llifogydd y gallai Strategaeth newydd ei helpu i leddfu/ddatrys y rhain.

(v) Adeiladu ar waith da blaenorol o ran trafod gyda budd-ddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, perchnogion tir ac ati, er mwyn sicrhau bod Strategaeth newydd yn cysylltu gyda'r grwpiau yma.

**5. Amserlenni**

Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn nodi'r amserlenni i gynnal y gwaith ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau beth yw'r amserlen ddisgwyliedig. Dylid nodi serch hynny y bydd angen ymgynghoriad ehangach ar y ddogfen strategaeth ddrafft cyn ei chadarnhau yng ngwanwyn 2024, felly bydd yn rhaid i unrhyw gyfarfodydd gyd-fynd â hyn.

**6. Llywodraethu**

Ar ôl cwblhau ei waith, bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cyfrannu at gwblhau'r ddogfen Strategaeth ddrafft. Ar y diwedd, bydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

**7. Gweinyddu**

Bydd swyddog o Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn rhoi cefnogaeth weinyddol i'r Grŵp Tasg a Gorffen. Bydd yn gyfrifol am

gadw cofnod priodol o weithgarwch y Grŵp a bydd ar gael i aelodau etholedig a/neu staff y Gwasanaethau Democrataidd os gwneir cais amdano.

**Aelodau Etholedig:**
**1 cynrychiolydd o bob Grŵp Ardal Aelodau**
**Dyffryn Dyfrdwy:** i'w benodi
**Dinbych:** i'w benodi
**Elwy:** i'w benodi
**Prestatyn:** i'w benodi
**Y Rhyl:** i'w benodi
**Rhuthun:** i'w benodi

**Cymorth gan Swyddogion i'r Grŵp:**
Andy Clark (Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol)/Tim Towers (Rheolwr Adain – Rheoli Rhwydwaith, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol neu gynrychiolydd)
Cynrychiolydd o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych: i'w benodi

Cymorth Gweinyddol (Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol)

*Gellir gwahodd Aelod(au) Arweiniol fel tyst(ion) arbenigol